TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

YMCA Diploma in Sports Massage Therapy Level 3

Yn gryno

Ar Lefel 3, mae rôl Therapydd Tylino Chwaraeon yn cynnwys cynllunio, darparu ac arfarnu triniaethau tylino chwaraeon.

Gellir cynnal triniaethau at ddibenion cyn, ar ôl ac yn ystod digwyddiad neu at ddibenion cynnal a chadw ac adfer, gan ddefnyddio ystod o dechnegau tylino sylfaenol. Cyfyngir cwmpas yr ymarfer i weithio ar feinwe problemus ac nid yw'n cynnwys gweithio ar anafiadau difrifol diweddar neu gyflyrau sydd eisoes yn bodoli.

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer rheoli chwaraeon a gweithgaredd corfforol (CIMSPA).

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... Gweithwyr ffitrwydd proffesiynol cymwys

... Y rheiny sydd eisiau arbenigo mewn ffitrwydd chwaraeon

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

... Gyrfa fel therapydd tylino ym maes chwaraeon

Cynnwys y cwrs

Mae'r meysydd gwybodaeth a dealltwriaeth y byddwch yn ymdrin â hwy yn ystod y cwrs hwn yn cynnwys:

Anatomi a ffisioleg ar gyfer tylino chwaraeon
Egwyddorion iechyd a ffitrwydd
Asesu a sgrinio cleientiaid
Ffurfio strategaethau tylino
Technegau sylfaenol tylino chwaraeon

Sgiliau yn ymwneud â'r cymhwyster:

Asesu a sgrinio cleientiaid ar gyfer triniaethau tylino chwaraeon
Ffurfio strategaethau tylino yn unol ag anghenion a disgwyliadau cleientiaid
Cymhwyso technegau sylfaenol tylino chwaraeon
Arfarniad triniaethau tylino chwaraeon

Gofynion Mynediad

Nid oes unrhyw ofynion ffurfiol ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno dilyn y Diploma Lefel 3 mewn Therapi Tylino Chwaraeon.

Rhaid i ddysgwyr fod yn 16 oed neu'n hyn ac mae'n helpu cael diddordeb brwd mewn chwaraeon neu iechyd a ffitrwydd.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae hwn yn gymhwyster ar sail damcaniaeth ac yn gymhwyster ymarferol, felly byddwch yn ennill profiad ymarferol er mwyn cryfhau eich gwybodaeth ddamcaniaethol.